Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau): Rhaglen Doethuriaeth – Nodiadau ar lanw'r ffurflen

Dylai ymgeiswyr ddarllen 'Cais am Gyllid AHRC: Gwybodaeth Gyffredinol' a gwirio ydyn nhw'n gymwys i'w cyllido cyn llanw'u cais.

Gellir lawr lwytho'r holl ffurflenni a dogfennau atodol o wefan:
www.cardiff.ac.uk/ahrcawards

Nodiadau Cyffredinol ar sut i lanw'r ffurflen ---------- ***Tudalen 1***
RHAN I: Nodiadau i'r Ymgeisydd ---------- ***Tudalen 2***
RHAN II: Nodiadau i'r Canolwyr ---------- ***Tudalen 5***
RHAN III: Nodiadaau i'r Pennaeth yr Ysgol (neu ei (h)enwebai) ---------- ***Tudalen 7***
Atodiad 1: Y Broses a'r Amserlen ar gyfer Ymgeisio ---------- ***Tudalen 8***
Atodiad 2: Meini Prawf Asesu Prifysgol Caerdydd ---------- ***Tudalen 9***
Atodiad 3- Disgrifiadau Meysydd Pwnc AHRC ---------- ***Tudalen 10***

Nodiadau Cyffredinol ar sut i lanw'r ffurflen

1 (i) RHAN I – i'w llanw gan yr ymgeisydd
(ii) RHAN II – i'w llanw gan ganolwyr yr ymgeisydd
(iii) RHAN III – i'w llanw gan Bennaeth yr Ysgol y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i astudio am ddoethuriaeth ynddi (neu ei enwebai)
(iv) DOGFENNAU ATODOL: Rhaid i ymgeiswyr gynnwys copïau o drawsgrifiadau o'u marciau a chanlyniadau eu gradd gyda'u cais.

2 Dylid defnyddio prosesydd geiriau â'r llythrennau mewn ffont sydd o leiaf yn 10 pwynt ym mhob adran. Dylid cyfyngu'r testun i'r gofod ar ei gyfer. Wnewch chi ofalu bod fformat y ffurflen yn cael ei chadw ac nad ydy'r testun ddim yn gorlifo i'r tudalennau canlynol.

3 Rhaid i'r ffurflen, wedi iddi gael ei chwblhau, ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiadau o'r marciau a chanlyniadau gardd) gael eu cadw ynghlwm (e.e. gyda chlip papur) ond heb eu rhwymo na'u styffylu.

4 **Cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy monitro'r cynnydd tuag at gwblhau'r cais.** Dylai'r ymgeisydd gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhai sy'n rhan o'r broses o gwblhau'r cais i sicrhau bod pob un o'r Rhannau'n cael eu llanw a'u cyflwyno erbyn y dyddiadau cau perthnasol. Mae'r Tabl yn Atodiad 1 yn gymorth i dracio cynnydd y cais.

5 Er gwybodaeth, nodir y meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau yn Atodiad 2.

RHAN I: Gwybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd – Nodiadau i'r Ymgeisydd

Cwestiwn 1: Maes Pwnc AHRC

Wrth lanw'r rhan hon, cynghorir ymgeiswyr i ofyn am gyngor gan yr Ysgol lle caiff y PhD ei leoli'n bennaf.

6 Trowch at Atodiad 3 sy'n rhoi disgrifiadau o'r pynciau AHRC. Rhaid i'ch prosiect fod o fewn o leiaf un o'r pynciau hyn.

7 Gall rhai rhaglenni PhD bontio ar draws meysydd pwnc eraill yr AHRC ac, os felly, dylid rhestru'r holl feysydd pwnc ar y ffurflen, er mwyn i'r cais gael ei ystyried yn llawn. Er enghraifft, gall PhD rhyngddisgyblaethol bontio mwy nag un maes llafur AHRC a bod hefyd yn gymwys i gael ei ystyried gan fwy nag un Panel Pwnc (e.e. Hanes a Cherddoriaeth).

8 Mae Caerdydd yn gwahodd ceisiadau ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil yr AHRC ar lefel doethuriaeth yn y meysydd pwnc canlynol ar gyfer mynediad yn 2012-13.

- **Archaeoleg**
- **Athroniaeth**
- **Astudiaethau Celtaidd**
- **Astudiaethau Crefyddol**
- **Hanes**
- **Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio**
- **Iaith a Llenyddiaeth Saesneg**

Cwestiwn 4 – Manylion cyswllt

9 Yr Ysgol academaidd rydych chi'n bwriadu astudio ynddi; hwyrach bydd yr Ysgol Ymchwil ac Ôl-radd yn y Dyniaethau a/neu'r Brifysgol am gysylltu â chi rhwng Mawrth a Awst 2012. Rhowch fanylion cyswllt fydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Cwestiwn 5 – Ceisiadau ariannu cyfredol

10 Nodwch, os gwelwch yn dda, os ydych hefyd yn gwneud cais i sefydliad(au) eraill am astudiaeth AHRC. Sylwch: os caiff ymgeisydd gynnig mwy nag un efrydiaeth gan wahanol sefydliadau, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddewis p'un i'w dderbyn cyn i'r enwebiad gael ei gadarnhau gyda'r AHRC.

Cwestiwn 6 – Profiad proffesiynol

11 Rhowch wybodaeth am unrhyw waith, swydd neu brofiad proffesiynol (seiliedig ar ymchwil a/neu waith ymarferol) sydd yn berthnasol i'ch rhaglen astudiaeth ac a fydd felly'n cryfhau'ch cais. Defnyddiwch y gofod sydd ar gael, os gwelwch yn dda, a pheidiwch â chynnwys tudalennau ychwanegol.

Cwestiwn 7 – Gyrfa mewn addysg uwch hyd yn hyn

12 Os oes ganddoch chi fwy nag un cymhwyster ar yr un lefel, rhowch fanylion am yr un mwyaf perthnasol i'r cais hwn (efallai mai nid hwn fydd yr un diweddaraf).

Cwestiwn 8 – Manylion yr Ysgol

13 Cysylltwch â'ch Ysgol i sicrhau eich bod yn cyflwyno'r manylion cywir am y pwynt cyswllt AHRC o fewn yr Ysgol. Bydd y canolwyr yn cael eu cyfarwyddo i anfon eu geirda i'r cyswllt hwn.

Cwestiwn 10 – Y rhaglen ymchwil arfaethedig

14 Rhowch deitl eich darpar brosiect ymchwil (neu brosiect ymchwil cyfredol os ydych chi eisoes wedi cychwyn ar eich PhD).

15 Mae eich 'datganiad atodol' yn allweddol i'ch cais. Dylech drafod cynnwys yr adran hon gyda'ch darpar oruchwyiwr(wyr). Bydd aseswyr yn chwilio am dystiolaeth o ansawdd uchel a photensial cadarn ar gyfer astudiaeth am ddoethuriaeth (tystiolaeth o bwrpas deallus a gwreiddioldeb, y rhesymau dros wneud eich astudiaeth a'ch dull o'i drafod, ymwybyddiaeth o gyd-destun yr ymchwil).

16 Defnyddiwch iaith glir a chryno, gan osgoi 'jargon'. Cofiwch y gallai'r aseswyr beidio o bod yn arbenigwyr yn eich maes arbenigol chi: dylech ysgrifennu eich 'datganiad cefnogi' gyda'r gynulleidfa hon mewn golwg, ac nid eich tiwtor neu eich cyfarwyddwr rhaglen.

17 Nodwch fod cyfyngiad caeth i gadw o fewn 500 gair. Rhaid nodi cyfanswm y geiriau sydd wedi eu defnyddio.

18 Dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

a) <u>Eich rhesymau a'ch bwriadau dros wneud y prosiect hwn</u>

<u>Dylech ystyried rhoi sylw i'r canlynol:</u>

- meysydd/materion allweddol y prosiect a pham eich bod am wneud yr ymchwil hwn;
- y problemau neu gwestiynau ymchwil rydych chi'n bwriadu rhoi sylw iddynt;
- y cyd-destun ymchwil lle mae'r problemau neu'r cwestiynau hynny'n codi;
- y cyfraniad arbennig i wybodaeth a dealltwriaeth yn y maes hwn rydych chi'n gobeithio ei wneud, gan egluro pam mae'r gwaith yn bwysig;
- y dulliau a'r ymdriniaeth gritigol o weithio rydych chi'n bwriadu eu defnyddio, a'r ffynonellau, os yw hynny'n berthnasol;
- sut bydd y gwaith arfaethedig yn berthnasol i'r hyn rydych chi wedi ei astudio eisoes (- os oes gorgyffwrdd rhwng eich traethawd Meistr a'ch ymchwil doethuriaeth, dylech ddangos fel y bydd y prosiect yn mynd ymhellach a nodi'r gwerth ychwanegol ddaw drwy barhau â'r ymchwil yn y maes hwn);
- unrhyw faterion moesegol sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil – sut byddwch yn nodi'r rhain a rhoi sylw iddynt;
- sut bydd y prosiect yn datblygu dros gyfnod y dyfarniad;
- sut mae'r ymchwil doethuriaeth yn berthnasol i'ch amcanion gyrfaol pellach.

<u>Os ydych eisoes wedi dechrau ar eich astudiaeth ddoethuriaeth</u>, nodwch y gwaith rydych wedi'i wneud hyd yma, gan roi gwybodaeth am y prif ddarnau o waith a gwblhawyd.

Paratoi a phrofiad blaenorol

- crynodeb **byr** o unrhyw brofiad blaenorol neu waith paratoi sy'n berthnasol i'ch darpar brosiect ymchwil (e.e. agweddu o'ch astudiaethau Meistr, graddau, cymwysterau, hyfforddiant ychwanegol neu sgiliau perthnasol);
- ar gyfer pynciau dan arweiniad ymarfer, dylech gynnwys manylion am eich profiad proffesiynol perthnasol.

Cwestiwn 11: Eich canolwyr

19 Dylech ddewis eich dau ganolwr yn ofalus: gyda'i gilydd dylai fod gan y ddau wybodaeth dda o'ch hanes academaidd hyd yn hyn a'ch cynlluniau ar gyfer y prosiect ymchwil. Dylent fod mewn sefyllfa i farnu pa mor addas a pharod ydych chi at astudiaethau doethur. Argymhellir mai'ch goruchwylydd arfaethedig (neu wirioneddol) fydd un o'ch dau ganolwr. Os ydych chi'n newydd i Brifysgol Caerdydd, argymhellir eich bod yn gofyn i oruchwylydd ein traethawd hir gradd Mesitr fod yn un o'ch canolwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu eu sylw at y nodiadau cyfarwyddyd i ganolwyr yn y ddogfen hon.

Pennyn y Ffurflen ('header')

20 Rhowch lythrennau cyntaf eich enwau cyntaf a'ch cyfenw llawn yn y blychau sydd yn y pennyn ar ben tudalennau 2-4.

Nodiadau am y ddogfennaeth atodol

21 Mae eich perfformiad academaidd hyd yma yn eich rhaglen israddedig a'ch rhaglenni Meistr ôl-raddedig yn agwedd bwysig ar eich cais. Ar gyfereich rhaglen israddedig (a'ch rhaglen Meistr os yw wedi dod i ben yn ffurfiol), dylech ddarparu trawsgrifiad o'ch marciau a chadarnhad o'r dosbarth gradd a ddyfarnwyd

22 Os na wnaethoch eich gradd ym Mhrifysgol Caerdydd, byddai'n ddefnyddiol petaech chi'n gallu darparu disgrifiad o'r meini prawf dosbarthu graddau.

23 Os ydych chi'n gwneud eich gradd Meistr ar hyn o bryd dylech gynnwys tystiolaeth o farciau modiwlau/aseiniadau unigol sydd wedi'u cadarnhau, lle gallwch wneud hynny. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech gynnwys datganiad yn dweud hynny.

24 (Caiff ei gydnabod mai manylion marciau a gafwyd yn rhan o raglenni a wnaed mewn blynyddoedd cymharol ddiweddar yn unig a all fod ar gael.)

Wedi i chi orffen llenwi Rhan I:

(a) pasiwch gopi o Ran 1 o'r cais wedi ei lanw, ynghyd â chopïau o'r dogfennau atodol, i bob un o'ch canolwyr sydd wedi eu henwi gennych uchod, iddyn nhw allu cwblhau eu hadroddiadau; i bob un ohonyn nhw, dylech roi Rhan II o'r cais i'w llanw; dylech hefyd roi copi iddyn nhw o'r ddogfen "Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau): Rhaglen Doethuriaeth – Nodiadau ar lanw'r ffurflen" ac hefyd "Cais am Gyllid AHRC: Gwybodaeth gyffredinol";

ac, ar yr un pryd -

(b) Pasiwch Ran 1 o'r cais wedi ei llanw i'r person cyswllt AHRC yn yr Ysgol y bwriedwch astudio ynddi, ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiad o'r marciau a chanlyniad arholiad gradd).

Dylai'r canolwyr lanw ei rhannau nhw ac yna eu pasio'n uniongyrchol i gyswllt AHRC yr Ysgol (fel a nodir yn Cwestiwn 8). **Gofynnir i'r ddau ganolwr ddychwelyd eu geirda i'r ysgol berthnasol erbyn 2 Mawrth 2012: dyma'r dyddiad cau i'r Ysgol dderbyn Rhannau I a II o'r ffurflen, ynghyd â'r dogfennau atodol.**

Nodwch mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy monitro cynnydd y cais a gwirio bod pob un o'r Rhannau wedi eu llanw**:** Fydd y Brifysgol ddim yn gwneud cais drosoch am eirda gan eich canolwyr, ac ni fydd eich cais yn cael ei ystyried os na fydd y ddau eirda wedi eu derbyn.

Bydd gan yr Ysgol hyd at 16 Mawrth 2012 i anfon eich cais ymlaen i gael ei ystyried gan banel pwnc perthnasol y Coleg Graddedigion y Brifysgol.

RHAN II: Adroddiadau canolwyr*- Nodiadau i'r canolwyr*

25 Dylai'r ymgeisydd fod wedi rhoi copi i chi o Ran I o'r cais wedi ei lanw a chopïau o'r dogfennau atodol (trawsgrifiadau o'r marciau a chanlyniadau gradd).

26 Mae'r ymgeisydd hwn wedi gwneud cais am ddyfarniad doethuriaeth. Fel canolwr, dylech fod yn gallu rhoi sylwadau manwl am waith diweddar yr ymgeisydd ac a ydy ef/hi yn barod ar gyfer astudio am ddoethuriaeth. Bydd o help i'r panel os rhowch chi dystiolaeth o sgiliau sydd gan yr ymgeisydd ac, yn bwysig, sut mae'r rhain yn berthnasol i'r astudiaeth arfaethedig (fel sy'n cael ei ddisgrifio yn 'natganiad atodol' yr ymgeisydd). Gofynnir i ganolwyr academaidd wneud defnydd o'u profiad o waith yr ymgeisydd yn ei gyfanwaith.

27 **Gallai geirda sydd ddim yn rhoi gwerthusiad manwl o ddatblygiad academaidd (neu broffesiynol) yr ymgeisydd a'i addasrwydd ar gyfer yr astudiaeth, ond yn hytrach yn ddatganiad cyffredinol o gefnogaeth, fod yn anfanteisiol i hyd yn oed i'r ymgeisydd cryfaf.** Os gwelwch yn dda, peidiwch â gwneud sylwadau amhriodol megis sylwadau personol.

28 Dylai canolwyr proffesiynol nodi ers faint mae'r ymgeisydd wedi gweithio â nhw ac ym mha swyddogaeth y bu hynny. Dylech fanylu am y math o swyddogaeth ac ystod y gwaith gafodd eu perfformio, a hefyd sut gallai hyn fod wedi darparu'r ymgeisydd ar gyfer yr astudiaeth arfaethedig.

29 Wnewch chi ddefnyddio ffont heb fod yn llai na 10pt a chadw o fewn y gofod osodwyd, os gwelwch yn dda.

30 Gwnewch sylwadau dan y penawdau isod:

a) Perfformiad blaenorol

- Os gwelwch yn dda, rhowch werthusiad realistig o alluoedd yr ymgeisydd yn seiliedig ar eich asesiad o'i b(ph)erfformiad academaidd hyd yma ac, os yn berthnasol, y perfformiad proffesiynol. Dylech gynnwys sylwadau ar gyfanwaith perfformiad yr ymgeisydd yn ei (g)radd(au) a'i b(ph)erfformiad ar fodiwlau neu gyrsiau unigol rydych chi wedi bod yn ei addysgu iddo(i) ar lefel isradd a/neu lefel Meistr.

- Yn achos **canolwyr proffesiynol**, defnyddiwch eich profiad o waith yr ymgeisydd i werthuso ei b(ph)erfformiad hyd yma. Amlygwch gryfderau/wendidau'r ymgeisydd yn y maes y mae ef/hi yn bwriadu astudio. Rhowch enghreifftiau i esbonio'ch sylwadau.

b) Parodrwydd ar gyfer astudio am ddoethuriaeth

- Rhowch eich asesiad o gymhelliad ac ymrwymiad yr ymgeisydd, ei (g)allu i weithio'n annibynnol drwy'r holl brosiect – gan gyfeirio at sgiliau deallusol, ymarferol, technegol neu broffesiynol sydd gan yr ymgeisydd nad ydych chi wedi cyfeirio atyn nhw eisoes. Mae diddordeb gan yr aseswyr mewn rhinweddau megis gallu cysyniadol yr ymgeisydd, ei allu i ddatrys problemau, ei allu o ran trefniadaeth, a lle y bo'n berthnasol, ei allu ymarferol neu dechnegol.
- Dylech nodi sut mae'r prosiect ymchwil arfaethedig yn berthnasol i brofiad yr ymgeisydd hyd yma, ac i'w g(ch)ynlluniau i'r dyfodol. Efallai hoffech chi drafod pethau megis y modd y mae'r ymgeisydd wedi datblygu a gwella yn ystod ei(g)yrfa isradd neu ôl-radd.
- Os ydy'r ymgeisydd eisoes yn gwneud gradd Meistr ac, os oes caniatâd i chi wneud hynny, rhowch fanylion unrhyw asesiad ffurfiol o'i (g)waith Meistr. Dylai bod dolen gyswllt rhwng y wybodaeth hon a'r safon a ragwelir gennych.
- Os ydy'r ymgeisydd wedi cychwyn ar ei (h)astudiaeth am ddoethuriaeth, rhowch fanylion o'i g(ch)ynnydd hyd yma. Dylech roi asesiad o gynnydd yr ymgeisydd gan ddweud ar ba sail rydych yn gwneud yr asesiad.
- Os nad oes gan yr ymgeisydd brofiad ar lefel ôl-raddedig, nodwch sut mae ef/hi'n eithriadol o barod i symud i ymchwil doethuriaeth heb flwyddyn gychwynnol o hyfforddiant ar lefel Meistr.
- Dylai **canolwyr proffesiynol** roi sylwadau hefyd am ymrwymiad proffesiynol, cymhelliant a photensial yr ymgeisydd. Byddai'n fuddiol i ddweud faint o brofiad proffesiynol sydd wedi ei gasglu gan yr ymgeisydd ar sail ei (h)astudiaethau academaidd, a'r modd y bydd hyn yn ei (d)darparu i barhau â'r ymchwil a chwrdd â'i nodau gyrfaol hir-dymor.

31 Efallai y gwnaiff yr ymgeisydd gais i gael gweld copi o'u geirda. Os ydych yn dymuno **atal** eich cydsyniad i ryddhau'r adroddiad i'r ymgeisydd, yna ticiwch y blwch. Os na fydd tic yn y blwch yna byddwn yn tybio eich bod wedi rhoi eich caniatâd.

Wedi i chi gwblhau'r geirda:

(a) rhowch wybod i'r ymgeisydd eich bod wedi cwblhau'ch geirda;

(b) pasiwch y geirda ymlaen at y Cyswllt AHRC yn yr Ysgol (gweler y manylion yn Rhan I, Cwestiwn 7, wedi ei llanw gan yr ymgeisydd).

Nodwch, os gwelwch yn dda, mai'r dyddiad cau ar gyfer i'r Ysgol dderbyn y ddau eirda ydy 2 Mawrth 2012

RHAN III: Datganiad Cefnogaeth yr Ysgol

I'w gwblhau gan Bennaeth yr Ysgol (neu ei enwebai/ei henwebai) lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu astudio

32 Dylech fod wedi derbyn Rhan I (wedi'i chwblhau gan yr ymgeisydd), Rhan II (y ddau ganolwr) ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiad o farciau a chanlyniadau gradd).

33 Gofynnir i chi gadarnhau bod modd i'r ymgeisydd a'i brosiect arfaethedig gael eu cefnogi'n briodol gan yr Ysgol – o ran arolygu 'addas', cyfleusterau, adnoddau a hyfforddiant sgiliau ymchwil arbenigol.

34 Mae lle i chi roi unrhyw sylwadau ychwanegol penodol os dymunwch. Yn achos y mwyafrif o'r ceisiadau, i ddisgwylir sylwadau ychwanegol yma fel arfer. Gofynnir i'r Panel Dethol asesu'r cais ar sail datganiad yr ymgeisydd, adroddiadau'r canolwyr a'r record academaidd, ac nid ar sail datganiad pellach gan yr Ysgol. Er hynny:

- Os yw cymhwyster israddedig yr ymgeisydd yn dod o sefydliad addysg uwch y tu allan i'r Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol i'r Ysgol roi asesiad o gyfatebiaeth y cymhwyster.
- Os na fydd yr ymgeisydd wedi gorffen rhaglen Meistr ôl-raddedig, mae'n ofynnol i'r Ysgol roi tystiolaeth a fydd yn caniatáu i'r Panel Dethol benderfynu a yw profiad yr ymgeisydd y tu hwnt i'w astudiaethau israddedig yn berthnasol i'r PhD arfaethedig, ac a yw'r profiad hwnnw'n golygu bod yr ymgeisydd yn gymwys, yn eithriadol felly, fel un sy'n barod ar gyfer astudiaethau doethur heb hyfforddiant ôl-raddedig ffurfiol blaenorol.

Pan fydd Cefnogaeth yr Ysgol wedi'i gwblhau:

Camau gweithredu i gyswllt AHRC yr Ysgol:

(a) trosglwyddwch y cais wedi'i gwblhau (y tair rhan) ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiadau o'r marciau a chanlyniadau gradd) i Swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol, 60 Plas y Parc (Park Place), **16 Mawrth 2012**, i'r Panel(i) Pwnc perthnasol gael ei ystyried;

(b) hysbyswch yr ymgeisydd eich bod wedi gwneud hyn.

Sylwer mai'r Swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol fydd yn gwneud y gwaith ffotocopi a'r dosbarthu i'r Panel. Peidiwch â rhwymo na styffylu'r cais ond defnyddiwch glipiau papur neu amlenni unigol neu waledi plastig.

Atodiad 1: Y Broses a'r Amserlen ar gyfer Ymgeisio

Bwriad y rhestr wirio amserlen hon ydy helpu'r ymgeisydd i dracio cynnydd ei g(ch)ais.

Cyfnod Gwneud Cais	**Llinell Amser (lle nodir)**
Yr ymgeisydd yn cwblhau Rhan I o'r cais. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y trawsgrifiad a thystiolaeth o ganlyniadau'r radd yn cael eu cynnwys.	
Yr ymgeisydd yn anfon copïau o Ran I wedi'i chwblhau a'r dogfennau atodol i'r ddau ganolwr ynghyd â Rhan II o'r ffurflen er mwyn i'r canolwyr ei chwblhau. Dylai ymgeiswyr gynnwys y Nodiadau ar lenwi'r ffurflen.	***Diwedd mis Chwefror/ Dechrau mis Mawrth 2012*** *(Ymgeisydd i gytuno ar ddyddiad gyda'r canolwyr – rhaid cael digon o amser i'r canolwyr gwrdd â'r dyddiad cau sef 2 Mawrth 2012*
Yr ymgeisydd yn anfon Rhan 1 ynghyd â dogfennau atodol at gyswllt Ysgol y Cyngor Ymchwil a Dyniaethau (AHRC).	**Dyddiad Cau:** *2 Mawrth 2012*
Y ddau ganolwr yn anfon eu geirda at y Cyswllt Ysgol.	**Dyddiad Cau:** *2 Mawrth 2012*
Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn llenwi Datganiad Cefnogaeth yr Ysgol.	
Yr ysgol yn trosglwyddo'r cais gorffenedig (Rhan I, II a III ynghyd â'r dogfennau atodol) i Swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol.	**Dyddiad Cau:** *16 Mawrth 2012*
Gwirio'r cais am gymhwyster a'u copïo a'u dosbarthu i'r panel(i) Pwnc.	*Yr wythnos yn cychwyn 19 Mawrth 2012*
Paneli Pwnc yn cwrdd	*Diwedd mis Mawrth/ dechrau mis Ebrill 2012*
Argymhellion Paneli Pwnc yn cael eu coladu a'u cyflwyno i gyfarfod y Pennaeth Dyniaethau.	*Ebrill 2012*
Hysbysu'r Gofrestrfa o ganlyniadau'r asesiad a'r broses dyfarnu ac yna hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig.	*Ebrill 2012*

Atodiad 2: Dyfarniadau Doethuriaeth AHRC – Meini Prawf Asesiad Prifysgol Caerdydd

1. Tystiolaeth o ansawdd yr ymgeisydd

   Seilir hyn ar y Datganiad Atodol a wnaed gan yr ymgeisydd yn ei gais/ei chais a'r tystiolaeth a ddarparwyd gan y canolwyr am berfformiad yr ymgeisydd ar lefel israddedig a graddedig ac yn nhermau profiad proffesiynol perthnasol. Cyfeirir at drawsgrifiadau y marciau modiwl unigol a chanlyniadau gradd.

   Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth o allu i ddisgrifio prosiect ymchwil, cynllun cydlynol a rhesymegol ar gyfer astudiaeth doethuriaeth ac ymwybyddiaeth dda o safle ei ymchwil/ei hymchwil o fewn y maes cyfredol.

2. Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi'i b(ph)aratoi'n dda ar gyfer ei d(d)arpar ymchwil a'i (g)yrfa yn y dyfodol.

   Seilir hyn ar ddisgrifiad yr ymgeisydd o sut mae ei b(ph)rofiad blaenorol (academaidd a phroffesiynol) wedi ei b(ph)aratoi ar gyfer astudiaeth doethuriaeth ac ymchwil a disgrifiad yr ymgeisydd o sut bydd y rhaglen yn cyfrannu at ei f(b)wriad hirdymor. Bydd yr asesydd hefyd yn ystyried y dystiolaeth atodol a ddarparwyd gan y canolwyr, yn enwedig o ran gallu'r ymgeisydd i gwblhau'r rhaglen ymchwil.

3. Tystiolaeth o ansawdd a dichonolrwydd y darpar astudiaeth

   Seilir hyn ar adroddiad yr ymgeisydd a'i r(h)esymau dros wneud y raglen ymchwil arfaethedig.

4. Tystiolaeth priodoldeb cefnogaeth Ysgol, adnoddau a'r goruchwylio

   Bydd yr aseswyr yn edrych am sicrwydd bod gofynion y prosiect o ran arbenigedd y goruchwylio, adnoddau, cyfleusterau, cymorth technegol a chymorth arbenigol arall gan gynnwys hyfforddiant sgiliau ymchwil, wedi cael eu hystyried yn llawn ac wedi eu darparu. Bydd aseswyr hefyd am wybod sut y delir ag unrhyw fwlch a ganfuwyd yn yr hyfforddiant ar gyfer yr ymgeisydd arbennig hwn/hon a bydd diddordeb gan yr asesydd i sicrhau sut yr aethpwyd ati i ddelio â materion moesegol.

Atodiad 3- Disgrifiadau Meysydd Pwnc AHRC (lle y mae gan Gaerdydd ddyfarniadau Doethuriaeth AHRC i'w cynnig yn 2012-13)

Archaeoleg
Yn cynnwys damcaniaeth archaeoleg; archaeoleg gwreiddiau dynol; cymdeithasau cynhanesiol a hanesyddol fyd eang. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwareiddiadau'r dwyrain agos; Eifftoleg; archaeoleg glasurol; archaeoleg canoloesol ac ôl-ganoloesol; archaeoleg trefedigaethau a diwydiannol; archaeoleg gyhoeddus ac agweddau archeolegol o reoli treftadaeth ac astudiaethau amgueddfeydd.

Athroniaeth
Yn cynnwys pob maes, arddulliau a dulliau o fynd ati i astudio athroniaeth gan gynnwys; metaffiseg , hanes athroniaeth gan gynnwys yr hen, y canoloesol, cyfoes a diweddar; metaffiseg, gwybodeg; rhesymeg; athroniaeth gwyddoniaeth; athroniaeth y meddwl; athroniaeth iaith; athroniaeth crefydd; athroniaeth Ewrop yn y 19 a'r 20 ganrif gan gynnwys ffenomoleg, dirfodaeth, theori beirniadol, hermeniwteg a dadlunio; moeseg yn cynnwys moeseg gymhwysol, athroniaeth wleidyddol a chymdeithasol; athroniaeth gymhwysol; athroniaeth ffeministiaeth; ac estheteg. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Gall *hen athroniaeth* ddod o dan Clasuron a Hanes yr Hen Fyd
- Byddai *hanes gwyddoniaeth* a *hanes syniadau* fel arfer yn dod o dan Hanes ble mae ffocws yr astudiaeth am arolygon empirig o *arfer gwleidyddol* yn hytrach nag ar athroniaeth, mae hyn ym maes gofal ESRC; mae *gwleidyddiaeth gyfoes a damcaniaeth wleidyddol* ym maes gofal ESRC.

Astudiaethau Celtaidd
Yn cynnwys astudiaethau ym maes iaith a llenyddiaeth, damcaniaethau beirniadol a diwylliannol; ysgrifennu creadigol; astudiaethau diwylliannol; astudiaethau rhywedd; astudiaethau'r cyfryngau; athroniaeth; ac astudiaethau hanesyddol. Rhaid i'r gwaith gynnwys cyfran arwyddocaol o waith ar destunau, dogfennau neu archifau neu waith maes mewn iaith berthnasol heblaw am Saesneg a rhaid i'r myfyrwyr hefyd ddangos cymhwysedd yn yr iaith honno ar lefel briodol.

Astudiaethau Crefyddol
Yn cynnwys astudiaeth o grefyddau'r byd, penodol neu gymharol, gan gynnwys eu hysgrythurau, syniadau, hanes, athrawiaeth foesol, effaith gymdeithasol a diwylliannol, arferion a meysydd cysylltiedig. Mae'n cwmpasu dulliau diwinyddol, testunol, athrawiaethol, cymdeithasegol, anthropolegol a chymhwysol o fynd ati. Mae'n cynnwys pob maes a fyddai fel arfer yn cael eu hastudio ym maes diwinyddiaeth, astudiaethau crefyddol neu astudiaethau beiblaidd.

Hanes
Mae'r AHRC yn cefnogi gwaith pob cyfnod *hanes a hanes yr hen fyd i'r gorffennol diweddar*, ac ymhob cwr o'r byd, er dylid cyfeirio ceisiadau hanes yr hen fyd at y Clasuron & Hanes yr Hen Fyd. AHRC sy'n gyfrifol yn bennaf am: gofiannau; hanes gweinyddol, diwylliannol, diplomyddiaeth, hanes y gyfraith, hanes milwrol, hanes gwleidyddiaeth a hanes crefydd; hanes gwyddoniaeth , meddygaeth a syniadaeth ; a hanesyddiaeth.

Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau): Rhaglen Doethuriaeth – Nodiadau ar lanw'r ffurflen

Mae'r AHRC yn ariannu gwaith ym maes 'hanes modern' sef hanes sy'n gorffen yn yr ugeinfed ganrif hwyr. Mae'n cydnabod bod 'hanes cyfoes' yn faes astudiaeth dilys ond mae rhaid i astudiaeth sy'n ffocysu'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar ddau ddegawd olaf y ganrif honno ddangos mai hanesyddol ydy'r prif ffocws (h.y. yn hytrach na chyfoes, diwylliannol neu wleidyddol) a sut a pham mae hynny'n wir, er enghraifft, sut bydd yr astudiaeth yn ffocysu ar newid dros gyfnod penodol o amser neu'n defnyddio dulliau hanesyddol yn bennaf o ddadansoddi. Mae'r maes pwnc hwn hefyd yn cynnwys:

- *daearyddiaeth hanesyddol neu ddaearyddiaeth diwylliannol* a *hanes daearyddiaeth,* lle gellir profi mai ffocws hanesyddol sydd i'r astudiaeth
- *hanes gwyddoniaeth a meddygaeth* a *hanes syniadaeth* ac eithrio'r achosion lle mai ffocws y darpar astudiaeth mor amlwg yn athronyddol nes y byddai'n fwy priodol i'r astudiaeth gael ei chyfeirio *i faes astudiaethau Athroniaeth* lle mae prif ffocws y darpar waith yn hanesyddol
- *hanes diplomyddiaeth* a *hanes cysylltiadau rhyngwladol (*dydy'r AHRC ddim yn cefnogi gwaith ym maes *cysylltiadau rhyngwladol cyfoes neu go-gyfoes neu ddamcaniaeth neu ddadansoddiad cyfoes neu go-gyfoes).*

Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio

Yn cynnwys hanes celf, pensaernïaeth a dylunio, o fewn y fframwaith cronolegol a daearyddol ehangaf; theori ac estheteg y celfyddydau gweledol; hanes ffotograffiaeth a'r cyfryngau gweledol; gwaith ym meysydd cytras megis astudiaethau diwylliannol ac o ran dosbarthiad rhyw, archaeoleg ac anthropoleg lle mae'r rhain yn pontio astudiaethau'r celfyddydau gweledol neu wedi eu grwpio gyda nhw. Bydd yr AHRC hefyd yn cefnogi ymchwil mewn pensaernïaeth sy'n ymwneud â chynllunio adeiladau (ond nid agweddau adeileddol na sifil nac agweddau eraill o beirianneg).

Iaith a Llên Saesneg

Yn cynnwys iaith a llên Hen Saesneg a Saesneg Canol Oesol; Hen Norseg ac Islandeg; Llên y Dadeni; Llên y 17 a'r 18 ganrif; Llenyddiaeth ramantaidd;
llên Fictoraidd, llên yr ugeinfed ganrif; llên Americanaidd; llên trefedigaethau ac ôl trefedigaethol; llên gymharol; ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth plant; theori a hanes beirniadol a diwylliannol; astudiaethau o ran dosbarthiad rhyw ac astudiaethau hoyw; llyfryddiaeth, beirniadaeth destunol a hanes y llyfr; llên Gwyddelig yn y Saesneg ; Llên Albanaidd yn y Saesneg a Gaeleg yr Alban; a Llên Cymru yn Saesneg. Mae'r maes hwn hefyd yn cynnwys :

- Hanes yr *iaith Saesneg* a dadansoddi arddull a mynegiant (gallai astudiaethau Iaith Saesneg eraill, yn cynnwys astudiaethau llefaru a phragmatiaeth, geirfa a gramadeg gael eu cyfeirio i leithyddiaeth)
- *theori beirniadol ac astudiaethau diwylliannol neu gyfathrebu* lle mae ffocws yr astudiaeth ar ddehongli neu ddadansoddi testunau yn Saesneg.